------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Hydref 2023

Amser: 09.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Catherine Hunt**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru


## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(9:00)

## 2 Papurau i'w nodi

(Tudalen 1)

**2.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid - Cyllideb Ddrafft 2024-25**

(Tudalennau 2 - 3)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4, 5, 6, 7 a 10

## 4 Craffu deddfwriaethol - diweddariad

(09:05-10.15)

**(Egwyl: 10:15-10:30)**

## 5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - briff technegol gan Lywodraeth Cymru

(10:30-12:00) (Tudalennau 4 - 37)

Swyddogion Llywodraeth Cymru:

Michael Kay, Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y Bil - Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Etholiadau

Elaina Chamberlain, Arweinydd Polisi: Pennaeth Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Sarah Wymer, Rheolwr y Bil

Gareth McMahon, Uwch-gyfreithiwr y Llywodraeth: Gwasanaethau Cyfreithiol

Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Datganiad Ysgrifenedig

## 6 Y Dull o Graffu

(12:00-12:20) (Tudalennau 38 - 52)

## 7 Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol - trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

(12:20-12:30)

**(Egwyl: 12:30-13:15)**

**Rhag-gyfarfod (13:15-13:30)**

## 8 Cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

(13:30-14:15) (Tudalennau 53 - 79)

Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Ruth Meadows, Cyfarwyddwr dros-dro ar Ymateb I Wcráin

Joanna Valentine, Dirprwy Cyfarwyddwr, Is-adran Llety Trosiannol - Wcráin

## 9 Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

(14:15 - 15:00) (Tudalennau 80 - 82)

Jane Hutt AS, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Stuart Evans, Pennaeth Ras; Ffydd a chred; Polisi Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Amelia John, Cyfarwyddwr Dros Dro - Cymunedau a Threchu Tlodi.

## 10 Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip - trafod y dystiolaeth

(15:00-15:15)

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**5 Hydref 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 | Y Pwyllgor Cyllid | I'w nodi |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Rebecca Evans AS,

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

22 Medi 2023

Annwyl Rebecca,

**Papurau tystiolaeth i gefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 8 Medi.

Rwy'n ddiolchgar am y modd adeiladol yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ffyrdd y gellir gwella tystiolaeth ysgrifenedig weinidogol ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy llythyr ar 23 Mehefin.

Rwy'n croesawu eich bwriad i gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd cyn cylch cyllideb 2024-25. Rwyf hefyd yn ddiolchgar y bydd Pwyllgorau'r Senedd yn cael cynnig briff technegol ar y Gyllideb Ddrafft.

O ran eich cais am arwydd clir gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth weinidogol, ni fyddai'n briodol i mi ddarparu un rhestr o gynigion heb ymgynghori â Chadeiryddion y Pwyllgorau yn gyntaf.

Er fy mod yn gweld manteision o ran datblygu templed lefel uchel ar gyfer papurau tystiolaeth, ac er fy mod yn cefnogi cydweithredu rhwng pwyllgorau i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd mewn meysydd ffocws yn ystod craffu ar y gyllideb,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

gall fod yn anodd cyflawni dull cyson yn ymarferol, o gofio ei bod yn naturiol y bydd gan bwyllgorau flaenoriaethau a meysydd ffocws gwahanol.

Hoffwn hefyd warchod rhag datblygu templed a allai feithrin dull rhagnodol o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig, a allai wanhau'r wybodaeth sydd ar gael i bwyllgorau unigol yn y pen draw wrth iddynt geisio dwyn penderfyniadau gwariant gweinidogol i gyfrif.

Mae'r anawsterau y mae Gweinidogion yn eu hwynebu wrth ddarparu manylion penodol ar gyfer pwyllgorau sy'n ymwneud â phob MEG yn ystod cyllideb 2024-25 yn enghraifft o hyn. Er fy mod yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil amserlen cyllideb eleni, ni ddylai hyn rwystro Pwyllgorau rhag gofyn am wybodaeth fanwl yn ymwneud â phortffolios unigol gan fod hyn yn hanfodol i lywio sesiynau tystiolaeth cyhoeddus gyda Gweinidogion, yn enwedig pan fo'r amser i ymgynghori â rhanddeiliaid wedi'i gyfyngu.

Felly, rwy'n barod i archwilio ffyrdd y gellid datblygu templed, er fy mod hefyd yn cydnabod y gallai gymryd amser i sicrhau consensws ar y mater hwn a'i bod yn annhebygol y cytunir ar unrhyw newidiadau ar gyfer cylch y gyllideb sydd i ddod.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn i holl bwyllgorau'r Senedd sydd â diddordeb mewn craffu ar y gyllideb er mwyn hwyluso trafodaethau pellach, a byddaf yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cadeiryddion ar 23 Hydref.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Diweddariad gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, sy'n dwyn y teitl Darparu Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin**

Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Ddarparu Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru ym mis Mawrth 2023, darparodd Llywodraeth Cymru ymateb sydd ar gael yma. Cyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref, darperir y diweddariad canlynol ar yr argymhellion.

**Argymhelliad 1**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:*

*Dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i ddarbwyllo Llywodraeth y DU i gynyddu'r taliad misol i letywyr i £500 neu, os nad yw hyn yn bosibl, ystyried ariannu taliadau pontio i letywyr yng Nghymru i sicrhau bod pawb yn cael taliad misol o £500.*

**Ymateb: Derbyn** **Cynnydd: Cyflawnwyd**

Er i Lywodraeth Cymru barhau i annog Llywodraeth y DU i gynyddu taliadau 'diolch' misol i letywyr i £500, parhaodd Gweinidogion y DU â'u safbwynt presennol. Byddai hyn wedi golygu, am y flwyddyn gyntaf y mae unigolyn o Wcráin wedi bod yn y DU, y byddai'r taliad 'diolch' yn aros ar £350, gan gynyddu i £500 dim ond ar ddechrau'r ail flwyddyn.

Roeddem o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau tegwch o ran taliadau ymhlith ein lletywyr yng Nghymru ac annog mwy o leoliadau lletya mewn cyfnod pan fo prinder tai. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r amlen ariannu sydd ar gael inni ar gyfer Cartrefi i Wcráin yn 2023-24 i ariannu taliadau ychwanegol misol o £150 i'r rhai na fyddent fel arall yn gymwys i gael £350 y mis gan Lywodraeth y DU. Bydd hyn yn sicrhau bod pob lletywr yn gymwys i gael £500 y mis, waeth pa mor hir y bydd y rhai hynny sy'n cael eu lletya wedi bod yn y DU. Mae hyn wedi arwain at un neges glir a chyson i letywyr yng Nghymru a hon yw'r neges allweddol yn ein hymgyrch gyfathrebu er mwyn annog rhagor o letywr i gynnig cartref i'r bobl yma.

Ar hyn o bryd, rydym yn gofyn i Lywodraeth y DU drafod dyfodol cynlluniau'r Wcráin â ni, a fydd yn cynnwys trefniadau ar gyfer taliadau lletya yn ystod blwyddyn 3 fisâu Cartrefi i Wcráin. Nid oes unrhyw fanylion ar gael eto gan Lywodraeth y DU. Rydym hefyd yn ystyried pa mor ymarferol fyddai i ragor o letywyr a gwesteion droi lleoliadau priodol yn drefniadau lletya masnachol os na fydd taliadau 'diolch' ar gael ym mlwyddyn 3.

**Argymhelliad 2**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:*

*Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel mater o frys i egluro ei safbwynt o ran canolfannau croeso.*

**Ymateb: Derbyn** **Cynnydd: Cyflawnwyd**

Ni fwriadwyd erioed i'r llety cychwynnol a ddarperir drwy ein llwybr uwch-noddwyr fod yn fwy na llety dros dro i'r rhai sy'n ffoi o Wcráin ac ni fwriedir iddo fod yn ateb parhaol. Helpu unigolion sy'n cyrraedd Cymru i gael llety tymor hwy yw'r flaenoriaeth, er mwyn iddynt allu ymgartrefu ac integreiddio'n llawn yn ein cymunedau. Fodd bynnag, rhaid i'r uchelgais hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun y pwysau ehangach o ran tai a'r angen i helpu pob grŵp i gael tai addas, hirdymor, yng Nghymru.

Dechreuodd nifer y gwesteion sy'n cyrraedd drwy lwybr Uwch-noddwyr Llywodraeth Cymru leihau'n sylweddol tua diwedd 2022 ac, ar hyn o bryd, mae llai nag un unigolyn yn cyrraedd y wlad

dryw'r llwybr hwn bob wythnos. Felly, mae'r galw am lety cychwynnol i newydd-ddyfodiaid wedi lleihau'n sylweddol, sy'n golygu bod modd canolbwyntio ar resymoli a chau'r ystad llety cychwynnol wrth i bobl symud ymlaen i lety tymor hwy.

Dechreuodd cynllun hirdymor i resymoli a chau'r ystad llety cychwynnol o ddifrif ym mis Hydref 2022, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol lle mae llety cychwynnol yn cael ei ddarparu. Y nod oedd darparu llety cychwynnol i westeion o Wcráin a chymorth er mwyn helpu pobl i symud ymlaen i lety tymor hwy cyn gynted â phosibl. Caiff y gwesteion hynny na allant symud ymlaen cyn i safle gael ei gau eu hadleoli i lety cychwynnol arall, gan sicrhau bod llety yn parhau i fod ar gael i bob unigolyn.

Roedd mwy na 1750 o westeion mewn llety cychwynnol ar ddechrau'r broses gau, a oedd yn cael ei gefnogi ar draws 40 o safleoedd, gan gynnwys chwe Chanolfan Groeso, tair prifysgol, 29 o westai a dau barc gwyliau. Y gwestai drutaf a mwyaf anghysbell, yr oedd yn fwy anodd i awdurdodau lleol eu cefnogi, a gafodd eu blaenoriaethu i'w cau yn y lle cyntaf. Cafodd y gwesteion hynny nad oeddent yn gallu symud ymlaen cyn i safle gael ei gau eu hadleoli i lety mwy fforddiadwy megis parciau gwyliau a Chanolfannau Croeso. Mae'r mathau hyn o lety hefyd yn cynnig mwy o annibyniaeth am eu bod yn cynnig mwy o breifatrwydd a chyfleusterau hunanddarpar yn aml.

Mae'r cynllun cau yn parhau ar y trywydd cywir, ac ar 4 Medi 2023, roedd 30 o safleoedd llety cychwynnol wedi'u cau. Mae tua 470 o bobl yn dal i gael eu cefnogi ar 10 safle llety cychwynnol. Y bwriad yw y bydd pob gwesty sy'n weddill wedi'i gau erbyn mis Ionawr 2024, ond disgwylir i Ganolfan Groeso Wrecsam a Pharc Gwyliau Marine aros ar agor, y naill tan fis Gorffennaf a'r llall tan fis Medi 2024. Efallai y bydd yn bosibl i'r safleoedd llety cychwynnol sy'n weddill gael eu cau'n gynnar os gellir cefnogi pobl yn llwyddiannus i symud pobl. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol i gyflawni'r lefel hon o symud unigolion ymlaen ac mae wedi addasu'r cynllun yn barhaus er mwyn cyrraedd y gyfradd symud ymlaen uchaf ymhob safle llety cychwynnol sy'n cau.

Ni chaiff yr un gwestai ei adael heb lety o ganlyniad i gau lleoliad llety cychwynnol ac ni fydd neb yn ddigartref ar y stryd o ganlyniad i'n cynlluniau i leihau capasiti o ran llety cychwynnol a ddarperir gan ein huwch-noddwyr.

**Argymhelliad 3**
*Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:*

*Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd am ei bwriad o ran defnyddio llety modiwlaidd i ddarparu cartrefi i bobl o Wcráin. Dylai hyn gynnwys manylion am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol o ran datblygu llety o’r fath, ac am y cyllid sydd ar gael iddynt, a’i bwriad yn y tymor hwy o ran ei ddefnyddio.*

**Ymateb: Derbyn** **Cynnydd: Cyflawnwyd**

Yn ystod y tair blynedd diwethaf rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid drwy gydol y pandemig ac argyfyngau dyngarol er mwyn sicrhau bod llety ar gael i bawb mewn angen, gan helpu mwy na 36,000 o bobl i gael llety dros dro. Fodd bynnag, mae argyfwng dyngarol Wcráin yn ychwanegu at sefyllfa sydd eisoes yn heriol iawn gyda galw enfawr am dai sydd wedi'i waethygu gan yr argyfwng costau byw.

Dylid nodi mai dim ond y llety cychwynnol mewn gwestai a Chanolfannau Croeso a llety a gynigir gan letywyr sy'n ymwneud yn benodol â'r ymateb i argyfwng Wcráin. Mae'r holl alwadau eraill ar lety dros dro a thymor hwy yn cael eu rheoli ochr yn ochr â'r pwysau presennol a chynyddol ar wasanaethau tai a llety dros dro.

Mewn ymateb i'r pwysau cynyddol o ran cyflenwad tai a'r angen i leihau'r galw am lety dros dro, sefydlwyd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol er mwyn darparu llety tymor hwy o ansawdd da yn gyflym er mwyn cefnogi pawb sydd angen tŷ, gan gynnwys pobl o Wcráin.

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi amrywiaeth o fentrau gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig megis sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto, ailfodelu neu addasu adeiladau, caffaeliadau a defnyddio llety modiwlar ar sail defnydd yn y cyfamser.

Yn ei blwyddyn gyntaf, rhoddodd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol £76.4 miliwn i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan ei gwneud yn bosibl i 936 yn rhagor o gartrefi gael eu darparu. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, yn ddiweddar ailagorodd y cynllun am ail flwyddyn i geisiadau newydd.

Mae'r mathau o brosiectau sy'n cael eu cefnogi â'r cyllid hwn yn cynnwys sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto, ailfodelu neu addasu adeiladau, caffaeliadau a defnyddio llety modiwlar ar sail defnydd yn y cyfamser.  Mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn penderfynu pa brosiectau y byddant yn eu cyflwyno ar gyfer cyllid a'r ffordd y caiff y llety trosiannol hwn ei ddefnyddio wedyn yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau lleol. Rydym wedi annog cydweithio a dysgu mewn perthynas â phrosiectau arloesol a gyflwynir drwy ein cyfarfodydd rheolaidd ag arweinwyr tai Cymru a chyfarfodydd ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru.

O ran llety modiwlar, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio rhwydweithiau presennol a sefydledig i hwyluso'r broses o rannu arferion gorau mewn perthynas â gwaith adeiladu modiwlar ar gyfer llety trosiannol, megis Cymuned Ymarfer Tai Arloesol sy'n cyfarfod bob deufis er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau o gynlluniau a ariennir o dan y Tai Arloesol.

Rhaid i brosiectau a ariennir drwy'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol gyrraedd y safonau gofynnol a nodir yn fframwaith safonau'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol y bwriedir iddo sicrhau dull hyblyg ac ymatebol o ddarparu rhagor o lety o ansawdd da yn gyflym.
.

**Argymhelliad 4**

*Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor i sicrhau bod digon o lety symud ymlaen addas ar gael i bobl o Wcráin.*

**Ymateb: Derbyn** **Cynnydd: Cyflawnwyd**

Gall helpu Wcreiniaid i symud o lety cychwynnol i lety tymor hwy fod yn heriol i awdurdodau lleol, gan ddefnyddio llawer o'u hadnoddau. Oherwydd y pwysau ehangach o ran cyflenwad tai mae galw mawr am eiddo rhent preifat fforddiadwy ac mae rhai pobl yn pryderu ynghylch symud allan o lety cychwynnol ac yn amharod i wneud hynny.

Er mwyn cefnogi hyn, mae gohebiaeth genedlaethol ynglŷn â symud ymlaen wedi'i lledaenu, wedi'i hategu gan gwestiynau cyffredin manwl, a chod ymddygiad a pholisïau ymddygiadol er mwyn pennu disgwyliadau o ran ymddygiad gwesteion.  Os bydd gwesteion yn gwrthod derbyn sawl cynnig rhesymol o lety symud ymlaen, mae polisi ar wrthod llety ar waith gyda thâl yn cael ei godi am Wasanaeth Llety Symud Ymlaen er mwyn sicrhau y gall y costau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i gynigion ychwanegol o lety gael eu talu'n rhannol. Yn dilyn adborth gan awdurdodau lleol, cafodd y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddaru'n ddiweddar, er mwyn ceisio sicrhau mwy o gysondeb rhwng polisïau ar gyfer teuluoedd o Wcráin a pholisïau ar gyfer carfanau eraill y mae angen tai arnynt. Ceir manylion ein polisïau ar ymddygiad a gwrthod llety yma.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi diweddaru'r gyfran o'r boblogaeth y cytunwyd arni fel rhan o'r fframwaith ar gyfer Llety[1] er mwyn darparu dull Tîm Cymru o helpu Wcreiniaid mewn llety cychwynnol i symud i lety tymor hwy ledled Cymru. Mae hyn wedi ein galluogi i adlewyrchu'r nifer cynyddol o unigolion sy'n cyrraedd Cymru ac ystyried pwysau ehangach o ran cyflenwad tai, gan gynnwys nifer y bobl mewn llety dros dro a gwasgaru ceiswyr lloches. Mae hefyd wedi galluogi pob awdurdod lleol i ailddatgan ei ymrwymiad i ddull Tîm Cymru.

Gan gydnabod y pwysau ar awdurdodau lleol a'r pwys a roddir ar unigolion yn symud ymlaen er mwyn eu helpu i integreiddio yn y tymor hwy, dyrannodd Llywodraeth Cymru £2 miliwn o gyllideb Wcráin er mwyn helpu pobl o Wcráin i symud ymlaen. Mae £1.5 miliwn yn cael ei ddarparu fel grant i awdurdodau lleol er mwyn helpu pobl o Wcráin i symud ymlaen a gwneud cynnydd tuag at eu cyfran unigol o'r boblogaeth. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd, er enghraifft er mwyn helpu pobl i gael llety yn y sector rhentu preifat drwy fondiau, blaendaliadau, talu rhent ymlaen llaw a chymorth gyda dodrefn. Mae'n ategu'r cyllid y mae awdurdodau lleol yn ei gael er mwyn cefnogi grwpiau eraill y mae angen tai arnynt sy'n darparu cymorth tebyg er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o lwybrau i bawb mewn angen allu symud ymlaen i lety tymor hwy.

Dyrannwyd £0.5 miliwn er mwyn darparu cymorth symud ymlaen cenedlaethol ac fel rhan o hyn sefydlwyd ‘Tasglu Symud Ymlaen Cenedlaethol’. Mae'r tasglu wedi'i leoli ym Mlaenau Gwent gan ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad gweithredol sydd ar gael yn yr awdurdod o ganlyniad i weithredu Canolfan Groeso. Mae'r Tasglu yn gweithio ochr yn ochr â thimau tai ac adsefydlu awdurdodau lleol er mwyn darparu capasiti a phrofiad ychwanegol er mwyn hwyluso'r broses o symud ymlaen, gan gynnwys helpu’r rhai heb lety cychwynnol er mwyn gwneud cynnydd tuag at eu cyfran o'r boblogaeth.

At hynny, mae 'Housing Justice Cymru Ukraine', sef prosiect cefnogi lletya a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn helpu awdurdodau lleol i gynnig cymorth wedi'i dargedu i westeion mewn llety cychwynnol er mwyn eu helpu i symud ymlaen Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn annog gwesteion i ystyried llety a gynigir gan letywyr a helpu gwesteion i ystyried opsiynau yn y sector rhentu preifat ledled Cymru. Mae'n cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol i westeion drwy'r broses symud ymlaen.

**Argymhellion 5 a 6**
*Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:*

*Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid defnyddio rhywfaint o’r £40 miliwn y mae wedi’i dyrannu yn ei chyllideb ar gyfer 2023-24 i helpu awdurdodau lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau i’r rhai sy’n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin i dalu’r gwahaniaeth yn y tariff integreiddio; a*

*Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar gael eglurder ynghylch faint o’r £150 miliwn o gyllid newydd ar gyfer 2023-24 a fydd ar gael i Gymru. Dylai’r diweddariad gynnwys gwybodaeth am sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu.*

**Ymateb: Derbyn** **Cynnydd: Cyflawnwyd**

Mae argymhellion 5 a 6 yn gysylltiedig â'i gilydd yn yr ystyr eu bod yn ymwneud â chanlyniad penderfyniadau cyllid Llywodraeth y DU ar Dariff Integreiddio Cartrefi i Wcráin. Mae'r gostyngiad yn y tariff integreiddio o £10,500 i £5,900 yn un sylweddol ac, am nad oes unrhyw dariffau ar gyfer

[1] Cartrefi i Wcráin: fframwaith ar gyfer llety [HTML] | LLYW.CYMRU

integreiddio ac addysg ym mlwyddyn 2, ni allwn ddarparu'r un lefel o gyllid i awdurdodau lleol o'n hadnoddau eu hunain na fyddant yn ymestyn mor bell â hynny, yn anffodus.

Mae Llywodraeth Cymru yn cael £8.2m gan Lywodraeth y DU yn lle tariff blwyddyn 2. Mae'r swm hwn yn gyfran gymesur o gronfa gyllido'r DU sy'n werth £150m, yn seiliedig ar nifer yr unigolion sy'n cyrraedd pob un o wledydd y DU o dan gynllun Cartrefi i Wcráin. Mae £8.2m ymhell islaw'r hyn y byddai awdurdodau lleol wedi'i gael fel arall petai Llywodraeth y DU wedi parhau i ddarparu tariffau ar gyfer blwyddyn 2, yn unol â chynlluniau ffoaduriaid ac adsefydlu eraill. Mae tariff blwyddyn 2 Cynlluniau Affganistan yn £6000 y pen ar gyfer blwyddyn 2, a fyddai'n cyfateb i £42.1m petai'n cael ei gymhwyso at nifer yr unigolion sy'n cyrraedd Cymru o dan gynllun Cartrefi i Wcráin. Byddaf yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddychwelyd i'r dull Tariff Integreiddio a brofwyd, a oedd yn sicrhau bod digon o gymorth ar gael i bobl o Affganistan a Syria ac eraill (drwy Gynllun Adsefydlu'r DU).

Serch hynny, er bod Llywodraeth y DU wedi lleihau'r cyllid hanfodol sydd ei angen ar awdurdodau lleol i lefelau ymhell islaw'r hyn y gellir ei liniaru, rydym yn dal yn benderfynol o gefnogi cynghorau i helpu pawb y mae angen cartref arnynt yng Nghymru.

Cyn cael penderfyniad gan Lywodraeth y DU ynghylch y dyraniad o £8.2m, gwnaethom benderfynu dyrannu £3.85m i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â bylchau cyllido. O fewn y swm hwn o £3.85m, dyrannwyd £2m i weithgarwch sy'n ymwneud â symud ymlaen (fel y nodwyd uchod) a dyrannwyd swm pellach gwerth £1.95m i awdurdodau lleol drwy gronfa ddewisol. Mae'r gronfa wedi'i chreu er mwyn darparu cymorth i helpu i integreiddio a lletya Wcreiniaid sy'n cyrraedd Cymru. Bwriedir i'r cyllid hwn gael ei ddyrannu er mwyn ateb heriau newydd mewn awdurdodau lleol megis addysg, gwersi iaith a rhaglenni cyflogadwyedd a fydd yn codi o ganlyniad i'r gostyngiad mewn cyllid ar gyfer y Tariff Integreiddio gan Lywodraeth y DU.

At hynny, ac fel y trafodwyd uchod, rydym yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer taliadau ‘diolch’ er mwyn sicrhau y gall lletywyr gael y £500 y mis yn y flwyddyn gyntaf, yn hytrach na'r £350 a ddarperir gan Lywodraeth y DU, sy'n helpu i atal hyd yn oed mwy o bwysau rhag cael eu gosod ar wasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol.

**Cymorth Ehangach i Wcreiniaid**

O ran cymorth ehangach, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn Gwasanaeth Noddfa Cymru er mwyn darparu cymorth i Wcreiniaid sy'n cyrraedd Cymru gydag amrywiaeth o gwestiynau neu rwystrau i gael cymorth. Mae'r llwybr hwn i gymorth uniongyrchol i Wcreiniaid yn ddefnyddiol pan fo adnoddau gwasanaethau statudol yn brin. Yn ogystal â rhoi cyngor a darparu gwasanaeth eirioli, mae'r gwasanaeth estynedig hefyd yn cynnwys fforwm cymorth cymheiriaid rhithwir misol i Wcreiniaid. Mae Alltudion ar Waith yn cydgysylltu'r fforwm hwn er mwyn helpu Wcreiniaid i gysylltu â'i gilydd a thrafod cyfleoedd a rennir a heriau cyffredin y maent yn eu hwynebu yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys cyngor cyfreithiol ar ymfudo a ddarperir gan Asylum Justice, lle y bo'i angen.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cymru'n Gweithio, sy'n helpu ein gwesteion o Wcráin i ddod o hyd i waith, gan gynnwys sicrhau bod eu cymwysterau yn cael eu cydnabod drwy ENIC neu drefnu i dystysgrifau gael eu cyfieithu. Yn ogystal â chynnig cymorth unigol, mae Cymru'n Gweithio yn cymryd rhan yng ngwasanaethau symud ymlaen awdurdodau lleol ac yn cynnal sesiynau grŵp llawn gwybodaeth yn ein lleoliadau llety cychwynnol lle y bo angen.

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n darparu cyllid ar gyfer cymorth Saesneg a chyflogaeth dwys ar-lein i Wcreiniaid yn DU sydd â Fisâu dyngarol. Bydd hon yn rhaglen i'r DU gyfan, a elwir yn ‘STEP Ukraine’, gyda Gweinidogion Cymru yn cytuno y caiff y rhaglen hon ei chyflwyno ar eu rhan er mwyn helpu mwy o Wcreiniaid sy'n cyrraedd Cymru i

integreiddio ymhellach yn eu cymunedau a chamau ymlaen yn eu gyrfaoedd yma. Rhoddwyd cydsyniad Gweinidogion Cymru i'r cynllun hwn ar y sail ei fod yn gynllun peilot ‘profi cysyniad’ am gyfnod penodedig y bwriedir iddo ystyried a all rhaglen ESOl ddwys ar-lein gefnogi ceiswyr noddfa yn fwy effeithiol. Cymerodd swyddogion Llywodraeth Cymru ran yn yr ymarfer caffael a dyfarnwyd y contract i World Jewish Relief (WJR) mewn partneriaeth â'r British Council. Rhagwelir y gallai mwy na 400 o Wcreiniaid yng Nghymru gael budd o'r cynllun peilot hwn.

Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cynllun Tocyn Croeso (darpariaeth trafnidiaeth am ddim) i Wcreiniaid (a charfanau eraill sy'n ceisio noddfa) er mwyn eu helpu i ymgyfarwyddo â chymunedau ac integreiddio ynddynt, yn ogystal â sicrhau cadernid ariannol.

**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Medi 2023**

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymchwiliad y Pwyllgor am y ddarpariaeth safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Rydym yn parhau i fod wedi llwyr ymrwymo i sicrhau gwelliant yn y sefyllfa hon ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rydym yn ceisio ymgysylltu â chymunedau ac ystyried eu hanghenion wrth ddatblygu polisi ac fe wnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr cymunedol ar 13 Medi. Rydym hefyd yn eirioli dros gael llywodraeth ganolog y DU i ystyried eu hanghenion ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli, ond yn anffodus ychydig o effaith a gawsom yn hyn o beth. Er enghraifft, gan amlaf nid oedd cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gallu cael mynediad i'r Taliad Tanwydd Amgen, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023, oherwydd na chafodd ei hysbysebu'n eang i ddechrau ac roedd y meini prawf cymhwyso yn atal mwyafrif y cymunedau.

Rydym yn darparu cefnogaeth i wasanaethau eirioli ar gyfer teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Ar hyn o bryd mae'r gefnogaeth hon yn cael ei darparu drwy Travelling Ahead ar gost o £180K y flwyddyn. Mae'r gwaith hwn gan Travelling Ahead yn rhoi cymorth uniongyrchol i deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr i helpu unigolion i gael mynediad at wasanaethau ond hefyd i eirioli'n eang ar eu rhan a'u helpu i gael gafael ar gymorth lle bo angen.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddod â hiliaeth i ben yn cael ei ddangos drwy ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sydd â'r nod o adeiladu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae'r cynllun yn cefnogi camau gweithredu penodol mewn perthynas â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a bod pob barn yn weladwy ac yn cael ei chyfathrebu.

Fel rhan o hyn mae swyddogion wedi ymweld â safleoedd ledled Cymru dros y misoedd diwethaf i ddeall yr heriau o ran datblygu safleoedd a phenderfyniadau cynllunio . Mae hyn wedi cynnwys ymweliadau â safleoedd preifat a rhai y mae Awdurdodau Lleol yn eu rhedeg i ddeall y rhwystrau a wynebir a'r cyfleoedd i ddatblygu a gwella safleoedd.

**Darpariaeth safleoedd yng Nghymru**

Creodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ddyletswydd i nodi a diwallu'r angen am lety priodol. Ers hynny, rydym wedi gweld ymhell dros ddau gant o leiniau newydd naill ai'n cael eu sefydlu, neu eu hadnewyddu, llawer ohonynt ar safleoedd teuluol bach, preifat. Mae hyn yn cymharu â'r llond llaw yn unig o leiniau newydd a sefydlwyd rhwng 1997 a 2014.

Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd wedi parhau ym mhob rhan o Gymru. Ar ôl cyflwyno deddfwriaeth a darparu cyllid sylweddol i fynd i'r afael â'r angen, mewn rhai achosion mae'r cynlluniau wedi dod i stop ers sawl blwyddyn.

Rwy'n disgwyl i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sicrhau bod digon o safleoedd a lleiniau yn cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer cymunedau Sipsiwn ledled Cymru. Rwy'n disgwyl iddynt asesu anghenion yn gywir a llunio cynllun gweithredu clir i fynd i'r afael â'r anghenion hynny, gan sicrhau bod gan gymunedau fynediad at lety sy'n ddiwylliannol briodol drwy safleoedd Awdurdodau Lleol a safleoedd preifat. Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer safleoedd parhaol a thramwy yn llawer llai na'r gofynion ac ni all y sefyllfa hon barhau.

**Y broses ar gyfer Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr**

Sefydlwyd gofyn yn 2014 i Awdurdodau Lleol baratoi Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac adrodd ar yr angen am safleoedd a lleiniau ychwanegol yn eu hardal, gan gynnwys safleoedd parhaol a rhai tramwy dros dro. Mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru. Dylai'r rhain gael eu llunio mewn ymgynghoriad â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr leol - ond nid yw hyn yn digwydd bob tro. Yna mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, gan roi adborth a'u cymeradwyo neu ofyn am ddiwygiadau. Wedyn, bydd Awdurdodau Lleol yn bwrw ymlaen â'r camau y cytunwyd arnynt. Mae'r broses wedi tynnu sylw at yr heriau sylweddol sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r disgwyl i gynnwys y cymunedau mewn ffordd ystyrlon yn y gwaith o ddatblygu'r Asesiadau. Rwyf hefyd yn cydnabod bod y cynnydd wedi bod yn araf ar ein rhan ni. Effeithiwyd arno'n gyntaf gan bandemig COVID ac yn fwy diweddar gan gyfyngiadau staffio difrifol yn y tîm polisi perthnasol.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu pa mor drylwyr yw'r Asesiadau o Anghenion Llety ledled Cymru o ran diwallu'r angen am safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru benbaladr. Mae swyddogion yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr i nodi faint o ofyn sydd, a deall y rhwystrau sy'n parhau i atal cynnydd. Byddaf yn ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol gyda chanlyniad yr asesiadau hynny. Yn ddiweddar, rwyf wedi cyfarfod â CLlLC a'r arweinwyr Cabinet dros Gydraddoldeb yn y cynghorau i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau hyn a cheisio cael cydsyniad i gydweithio ledled Cymru i sicrhau bod cael darpariaeth ddigonol o safleoedd yn cael blaenoriaeth o ran safleoedd parhaol a rhai tramwy.

Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, byddaf yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog gydag Awdurdodau Lleol i adolygu eu Hasesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a deall amgylchiadau eu cynnydd. Byddaf yn archwilio gyda nhw y camau sydd eu hangen i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n weddill, ac i ofyn am gadarnhad o'u hymrwymiad i sicrhau darpariaeth ddigonol o ran safleoedd parhaol a rhai tramwy ledled Cymru i ddiwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Bydd hwn yn gyfle defnyddiol i'w hatgoffa am grant Llywodraeth Cymru fel adnodd pwysig ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith i wella safleoedd a chreu rhai newydd.

## Grant Cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr

Pwrpas y Grant Cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu safleoedd. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer adnewyddu llety presennol, creu lleiniau newydd a gwella cynaliadwyedd safleoedd i breswylwyr, a gwariant cyfalaf arall sy'n gysylltiedig â gwella safleoedd. Derbynnir ceisiadau a'u cymeradwyo fel rhan o raglen dreigl.

Mae cynigion ar gyfer safleoedd newydd, a hyd yn oed rhai ar gyfer gwelliannau, yn aml yn gymhleth ac yn gofyn am ymgysylltu â'r gymuned, ac weithiau caiff penderfyniadau eu herio. Mae hyn yn golygu y gall amserlen cynlluniau ar gyfer safleoedd newydd neu ddiwygiadau i safleoedd presennol fod angen cryn waith datblygu ar brydiau cyn gwneud ceisiadau cynllunio neu ofyn am grant. Rydym yn dal ati i sicrhau bod Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn ymwybodol o'r grant; fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r grantiau naill ai heb eu defnyddio'n llawn neu mae'r grantiau hynny a gafodd eu dyrannu ar y dechrau wedi wynebu oedi oherwydd bod gwaith adeiladu wedi bod yn arafach na'r bwriad neu heb ei orffen, sy'n golygu na all Awdurdodau Lleol gwblhau ceisiadau am grantiau. Mae rhai Awdurdodau Lleol hefyd wedi dweud eu bod yn aros am yr ymateb i'r Asesiadau o Anghenion Llety gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i ohirio, cyn gwneud cais am arian grant.

Mae dyraniadau a thaliadau'r grant ers ei greu i'w gweld isod. Er bod cyfraddau talu wedi bod yn isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwy'n disgwyl gweld y rhain yn cynyddu'n sylweddol yn 2024/2025.

| Blwyddyn | Dyraniad | Taliad | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 2020/2021 | 3,500,000 | 1,213,416 | Cafodd COVID effaith fawr ar y taliadau yn y flwyddyn hon. |
| 2021/2022 | 3500000 | 2540026 | Wedi'i effeithio gan COVID a phrinder staff |
| 2022/2023 | 3690000 | 0 | Wedi'i effeithio gan brinder staff |
| 2023.2024* | 3,190,000 | Amh. | Nid yw'r flwyddyn ariannol wedi'i chwblhau felly nid yw'r ffigurau taliad ar gael. |

## Edrych tuag at y dyfodol

Rwy'n disgwyl i'r tîm polisi fod wedi'i staffio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn hon. Wrth i'r tîm ymuno â ni, byddant yn canolbwyntio ar gwblhau proses yr Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r grant. Byddaf yn parhau i eirioli dros gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Byddwn yn parhau i gefnogi gwasanaethau eirioli a chymorth i'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ymgysylltu â grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i nodi ffyrdd eraill o gefnogi'r cymunedau hyn.